



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Maelor
Llannerch Banna
Wreccsam
LL13 0LU**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2014

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11 i 18 cyfrwng Saesneg yn Wrecsam yw Ysgol Maelor. Mae 766 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 96 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigur cyffredinol wedi gostwng er 2008 pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf, pan oedd 794 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r nifer yn y chweched dosbarth wedi gostwng yn sylweddol o 138 o fyfyrwyr. Mae gan ryw 6% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%. Daw disgyblion i'r ysgol o ardal ddaearyddol eang, o bentrefi bach gwledig yn bennaf, ac o drefi bach ac ardaloedd trefol hefyd. Mae tri phwynt pedwar y cant (3.4%) o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac yn dod o dreftadaeth gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn. Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw tua 13%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2%. Mae canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn agos iawn at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.6%. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol sy'n gwasanaethu'r awdurdod lleol ar gyfer 44 o ddisgyblion â dyslecsia.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym Medi 2011. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth ac un pennaeth cynorthwyol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maelor yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,357 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Wrecsam yw £4,908 a'r isafswm yw £4,297. Mae Ysgol Maelor yn wythfed allan o'r naw ysgol uwchradd o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae Ysgol Maelor yn ysgol dda oherwydd:

- mae disgyblion yn cyflawni safonau da yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg;
- mae'r addysgu yn effeithiol mewn llawer o wersi;
- mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth;
- mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda iawn; ac
- mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac fe gaiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae wedi sefydlu gweledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol sy'n cael ei chyfleu yn dda;
- mae gan y rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella;
- mae llinellau atebolrwydd yn glir ac fe gaiff perfformiad ei fonitro'n agos;
- mae cynllun datblygu'r ysgol yn darparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer gwella; ac
- mae llywodraethwyr yn herio a chefnogi'r ysgol yn dda.

Argymhellion

- A1 Lleihau'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4
- A2 Cynyddu cyfleoedd ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm
- A3 Gwella cysondeb ac effaith adborth ysgrifenedig i ddisgyblion
- A4 Sicrhau bod CAUau pob disgybl yn cynnwys targedau clir a mesuradwy ar gyfer gwella
- A5 Sicrhau bod targedau ar gyfer cynllunio gwelliannau yn fanwl ac yn fesuradwy
- A6 Codi safonau mewn Cymraeg ail iaith a sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gofrestru ar gyfer cymhwyster cydnabyddedig sy'n gweddu i'w allu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf ond bu gwelliant nodedig yn 2013. Mae ymhell uwchlaw'r disgwyliadau a'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg erbyn hyn. Bu gwelliant tebyg yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod ehangach o gymwysterau. Mae perfformiad yn y ddau ddangosydd hyn yn cymharu'n dda iawn â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae cynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol yn llawer gwell na'r disgwyl. Yn 2013, cododd perfformiad disgyblion mewn mathemateg yn sylweddol; bu gwelliant mewn perfformiad mewn Saesneg hefyd. Un disgybl yn unig a adawodd yr ysgol heb gymhwyster ac mae llawer ohonynt yn aros ymlaen mewn addysg a hyfforddiant amser llawn.

Mewn Safon Uwch, mae perfformiad islaw cyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig o TGAU i Safon Uwch.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae tuedd o welliant yn y rhan fwyaf o bynciau. Yn 2013, roedd perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd ymhell uwchlaw disgwyliadau ac roedd perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg.

Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na'r bwlch ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru mewn sawl dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd sy'n cyd-fynd â disgwyliadau i raddau helaeth.

Yn 2013, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda iawn yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 4 o gymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg ac yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf yn sicr iawn wrth alw gwaith blaenorol i gof a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r dysgu hwnnw mewn sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau ymhellach. Mewn rhai gwersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd her annigonol yn y tasgau a osodir. O bryd i'w gilydd, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwranddo'n astud ar yr athro a'u cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus wrth weithio mewn grwpiau bach ac yn ystod trafodaethau dosbarth cyfan. Maent yn rhoi ymatebion ac esboniadau datblygedig pan ofynnir cwestiynau iddynt. Mae rhai ohonynt yn defnyddio geirfa eang a soffistigedig yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl a hyderus. Defnyddiant ystod briodol o strategaethau, gan gynnwys marcio testun, i ddethol gwybodaeth a dadansoddi testunau. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen er pleser. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac mae rhai ohonynt yn cynhyrchu gwaith creadigol crefftus a difyr. Mae tua hanner o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaedd mewn gwahanol bynciau. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn prawffdarllen eu hysgrifennu yn effeithiol, felly mae'n aml yn aros heb ei ddatblygu ac mae camgymeriadau technegol sylfaenol yn parhau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif datblygedig iawn, yn cynnwys cyfrif, mesur a thrin data. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda mewn ystod o bynciau. Bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 yn 2013. Mae perfformiad yn well na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau cenedlaethol, ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg. Er bod y duedd yn anghyson, mae perfformiad cyffredinol wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae safonau mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 yn dangos gwelliant yn 2013 a bu cynnydd yn y gyfran sy'n ennill cymhwyster lefel 2 naill ai yn y cwrs byr neu'r cwrs llawn mewn Cymraeg yn 2013. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy'n ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg ail iaith ac mae'r ddarpariaeth hon ymhell islaw'r hyn a geir mewn ysgolion eraill.

Lles: Da

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i fwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Caiff pob disgybl gyfleoedd i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach, ac mae nifer fawr o ddisgyblion yn manteisio ar y rhain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio wrth weithio ac yn ymgymryd yn bwrpasol â thasgau. Dangosant frwdfrydedd a phleser yn eu dysgu.

Mae presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf wedi cynyddu ac mae'r gyfradd presenoldeb well yn 2013 yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ac mae ychydig uwchlaw disgwyliadau. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn yr ysgol yn y saith blynedd diwethaf. Gostyngodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn 2013 ac mae'n cymharu'n ffafriol â ffigurau'r awdurdod lleol.

Mae rhai disgyblion o'r holl grwpiau blwyddyn yn ysgwyddo cyfrifoldebau ar lefelau dosbarth, grŵp blwyddyn ac ysgol gyfan, yn enwedig trwy'r cynghorau amrywiol sy'n bwydo i mewn i'r cyngor ysgol. Mae'r grŵp bwyta'n iach wedi cael dylanwad

cynyddol ar opsiynau bwyta'n iach yn y ffreutur. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrandio ar eu safbwyntiau ac yn eu gwerthfawrogi.

Mae gan bron bob disgybl fedrau cymdeithasol a medrau bywyd datblygedig, ac maent yn dangos parch, gofal a phryder am bobl eraill.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm eang sy'n bodloni anghenion a diddordebau disgyblion. Mewn cydweithrediad â'r rhwydwaith 14 i 19, mae'r ysgol yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Ceir ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon, a chlybiau cerddorol. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion wella eu profiadau dysgu.

Mae gan yr ysgol strategaeth briodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gynhyrchu ysgrifennu estynedig yn y rhan fwyaf o bynciau, ond caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu'r rhan fwyaf o agweddau eraill ar eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn yn ddigon manwl i sicrhau bod y medrau hyn yn cael eu datblygu'n raddol. Mae'r ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd yn cynnwys cymorth addas ar gyfer y disgyblion hynny y mae eu medrau'n wan. Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol ar waith, er mai megis dechrau y mae hyn.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru wedi'i datblygu'n dda trwy waith pynciau a gwaith 'Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg'. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau preswyl a chyfranogiad parhaus yng ngweithgareddau'r Urdd. Mae darpariaeth yng nghyfnod allweddol 3 yn briodol ond hyd at 2013, nid oedd digon o amser yn cael ei neilltuo yng nghyfnod allweddol 4 i ddisgyblion wneud cynnydd digonol yn y cwrs byr Cymraeg TGAU. Nid oes digon o ddisgyblion yn astudio'r cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith.

Mae ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu'n dda. Gwneir defnydd da o'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, arweiniad bugeiliol a gwasanaethau i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol ar bartneriaeth werthfawr yr ysgol gydag ysgol yn Lesotho i ddatblygu eu dealltwriaeth o ysgol a bywyd mewn gwlad Affricanaidd.

Addysgu: Da

Bron ym mhob gwers, mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn helpu i greu amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gref ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio'u gwersi'n ofalus fel bod y gwaith yn gweddu'n dda i allu disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion a defnyddiant ystod eang o weithgareddau ac adnoddau i gymell disgyblion a chynnal eu diddordeb. Mae cyflymder effeithiol i ddysgu disgyblion ac fe geir cyfleoedd buddiol i gefnogi datblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Yn y gwersi prin lle mae'r addysgu yn hynod effeithiol, ceir lefel uchel o her a chyflymder chwim yn nysgu'r disgyblion. Mae holi medrus a threiddgar yn herio gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae cyfleoedd i fyfyrion ar eu dysgu a'i asesu yn galluogi disgyblion i ddyfnhau eu syniadau a datblygu eu dealltwriaeth.

Mewn rhai gwersi, nid yw'r addysgu mor effeithiol am nad oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'u disgyblion ac nid ydynt yn herio'n ddigonol chwaith. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn delio'n effeithiol ag ychydig bach o aflonyddwch. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth llafar clir sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n gyson bron ym mhob pwnc. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud sylwadau ysgrifenedig, wedi'i weddu i amcan y dysgu, sy'n cydnabod ymatebion cadarnhaol disgyblion i'r tasgau a osodwyd. Fodd bynnag, er bod llawer o sylwadau yn nodi nodweddion da yn y gwaith, nid yw mwyafrif yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn ddigon penodol i roi arweiniad i ddisgyblion i wella'u gwaith yn ddigonol. Mewn ychydig iawn o achosion yn unig y bydd disgyblion yn gweithredu yn unol â sylwadau gan athrawon fel bod deialog ddysgu yn datblygu. Mae rhai athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn dda i alluogi disgyblion i wella eu gwaith ac asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn well.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi perfformiad yn drylwyr, gan gynnwys canlyniadau arholiadau a data asesu mewnol yn y system olrhain addas. Mae hyn yn arwain at gofnodion asesu a chynnydd sy'n gynhwysfawr ac yn cael eu holrhain dros gyfnod yn erbyn targedau. O ganlyniad, gall arweinwyr ac athrawon ddefnyddio gwybodaeth am asesu i lywio cynllunio yn y dyfodol, yn enwedig yn y pynciau craidd. Mae gan ddisgyblion rôl weithredol mewn gosod a chytuno ar eu targedau ac maent yn eu hadolygu'n rheolaidd gyda'u tiwtoriaid dosbarth a'u mentoriaid. Pan gaiff tangyflawni ei nodi gan ddata wedi'i olrhain, mae'r ymyrraeth yn gyflym ac wedi'i theilwra yn unol â'r angen, gan arwain at berfformiad gwell.

Caiff rhieni a disgyblion grynodedau cynnydd rheolaidd. Mae adroddiadau i rieni yn gyson drylwyr ac yn amlinellu agweddau i'w gwella sy'n benodol i bwnc.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Caiff darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal a chymorth effaith gadarnhaol ar safonau, iechyd a lles disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan yr ysgol ac maent yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os oes ganddynt anawsterau. Mae'r rhaglen cwnsela disgyblion yn effeithiol wrth wella agweddau ac ymddygiad disgyblion, yn enwedig y rhai ym Mlwyddyn 7.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac mae disgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy wersi addysg grefyddol, gwasanaethau effeithiol iawn a myfyrdod yr wythnos yn ystod cyfnod tiwtor. Mae diwrnodau arweiniad bugeiliol yn cyfrannu'n sylweddol at addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae gan yr ysgol systemau cadarn i sicrhau cyfraddau presenoldeb da.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd gweithio effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ac arweiniad personol gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad buddiol pan fydd disgyblion yn gwneud dewisiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol iawn ar gyfer pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion yn cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau ysgol ac maent yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd. Mae athrawon yn addasu eu gwersi'n dda ac yn gwneud defnydd cadarn o asiantaethau allanol cefnogol pan fo'n briodol. Caiff y disgyblion gymorth effeithiol gan gynorthwywyr addysgu i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd parhaus.

Mae'r disgyblion hynny ag anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia yn cael cymorth sydd wedi'i gynllunio'n dda iawn. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd sy'n aml uwchlaw disgwyladau.

Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r targedau hyn yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn ddigon penodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chefnogol. Mae'n gymuned dawel a phwrpasol sydd wedi'i seilio ar barch ar y ddwy ochr a disgwyladau uchel o bawb. Mae'r ysgol yn cyflawni ei nodau yn llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu potensial, bod yn barod ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol a datblygu i fod yn bobl ifanc aeddfed a chyfrifol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb yn dda ac mae'n herio stereoteipio ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae'n nodi ac yn dathlu amrywiaeth yn dda iawn. Caiff pob disgybl yr un cyfle i fanteisio ar y cwricwlwm ac ystod y gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol.

Mae'r adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae ansawdd y rhan fwyaf o'r adeilad yn dda. Caiff yr adeiladau, gan gynnwys toiledau a chyfleusterau newid, eu cynnal yn dda. Mae arddangosfeydd lliwgar mewn ystafelloedd dosbarth a manau cymunedol yn cefnogi dysgu yn effeithiol. Ceir lefelau effeithiol iawn o adnoddau dysgu yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae'r llyfrgell yn darparu amgylchedd golau, helaeth a chroesawgar y mae llawer o ddisgyblion yn ei ddefnyddio. Mae

cyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd yr ysgol yn cynnwys offer da ac mae tir yr ysgol yn ddiogel, yn eang ac yn cael ei gynnal yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni gwelliannau sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Ceir synnwyr clir ar y cyd o gyfeiriad sydd wedi'i seilio ar ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu a ffocws cadarn ar wella safonau a chynyddu atebolrwydd. Mae'r pennaeth wedi sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio data yn dda i osod targedau addas, monitro cynnydd tuag atynt, a nodi a herio unrhyw danberfformio. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae'r rhain yn amlwg mewn cynlluniau gwella a chyfarfodydd ysgol gyfan ac adrannol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae wedi sefydlu gweledigaeth sy'n cael ei chyfleu yn dda ar gyfer datblygu'r ysgol a strategaeth bwrsasol ar gyfer ei chyflawni. Caiff ei gefnogi'n dda gan uwch reolwyr. Maent yn gweithio'n dda fel tîm ac mae eu cyfrifoldebau yn ymdrin â'r rhan fwyaf o feysydd allweddol yr ysgol. Ar y cyfan, ceir cydbwysedd da o ran dosbarthu cyfrifoldebau. Er mwyn ehangu gallu'r uwch dîm, caiff aelodau o staff eu secondio i'r tîm i ymgymryd â thasgau penodol. Mae trefniadau rheoli llinell yn systematig a ffocysedig. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi'u hamserlennu yn cynnwys diben clir ac maent yn arwain at lefelau uchel o atebolrwydd.

Mae cyfathrebu trwy raglen o gyfarfodydd a bwletinau gwybodaeth, a'r defnydd o'r e-bost yn effeithiol. Mae'r strwythur rheoli yn glir ac yn briodol i anghenion yr ysgol. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae rôl arweinwyr canol yn datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud eu gwaith yn effeithiol ac yn effeithlon. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae eu rolau wedi ehangu ac maent yn cynnwys mwy o gyfrifoldeb am berfformiad eu timau erbyn hyn. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o waith eu meysydd cyfrifoldeb ac maent wedi nodi blaenoriaethau addas ar gyfer gwelliannau pellach.

Ceir trefniadau datblygedig ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae'r rhain yn arwain at dargedau priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Mae arweinwyr wedi cymryd camau cadarn i ddelio ag achosion o danberfformio.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth lawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, gan gynnwys gwerthfawrogiad manwl o ddata perfformiad. Mae cyswllt rôl y llywodraethwyr ag adrannau pwnc wedi'i ddatblygu'n arbennig o dda ac mae'n helpu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o waith yr ysgol ymhellach. Mae gan lywodraethwyr rôl addas mewn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol ac maent yn effeithiol wrth herio'r ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol gylch rheolaidd o weithgareddau hunanarfarnu, ac yn ystod y cylch, mae'n adolygu tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth gan asiantaethau allanol. Gofynnir am safbwyntiau rhieni a gofalwyr, disgyblion a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd. Mae dadansoddiad trylwyr o ddata ar bob lefel yn ystyried tueddiadau a chymariaethau ag ysgolion tebyg, yn ogystal â chynnydd dros gyfnod. Wrth arfarnu lles disgyblion, mae'r adroddiad yn defnyddio data meintiol pan fydd ar gael. Mae'r adroddiad hunanarfarnu dilynol yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o'r safonau mewn gwersi ac ansawdd yr addysgu. Yn benodol, mae craffu ar waith disgyblion, sy'n cael ei wneud ar lefel ysgol gyfan a lefel adrannol, yn darparu tystiolaeth werthfawr. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr, ac mae'r rhan fwyaf o adrannau yn arfarnol. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag arweinwyr canol i gynyddu eu gallu i asesu deilliannau a'u perfformiad eu hunain. Mae bron pob un o'r arweinwyr pwnc craidd a llawer o arweinwyr pynciau eraill yn defnyddio data yn effeithiol i ysgogi gwelliannau. Mae'r cylch hunanarfarnu mewn adrannau trwy gyfres effeithiol o weithgareddau wedi'u cynllunio a deialog rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Mae'r dull cyson hwn yn arwain at ddogfen sicrhau ansawdd ddefnyddiol, sy'n cael ei hadnabod fel y 'ffolder porffor', sy'n rhoi manylion am dystiolaeth hunanarfarnu pob adran a'u cynnydd tuag at gyrraedd eu targedau ar gyfer gwella.

Ceir cyswllt cryf rhwng gweithgareddau hunanarfarnu a nodi blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae cynllunio ar lefel ysgol gyfan a lefel adrannol yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o dargedau a meini prawf llwyddiant cysylltiedig yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw'r broses fonitro ac arfarnu bob amser yn pennu effaith gwaith yr ysgol yn gywir. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer gwella ansawdd wedi helpu i gefnogi tuedd ar i fyny mewn safonau ac ymddygiad.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi datblygu a sefydlu partneriaethau effeithiol gydag ystod gynhwysfawr o sefydliadau ac asiantaethau cymorth. Mae'r partneriaethau hyn yn ymestyn ystod y cyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion ac yn darparu cymorth i'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd, presenoldeb a lles disgyblion yn agos ar gyrsiau partneriaeth. Mae uwch arweinwyr o'r ysgol a'r coleg lleol wedi datblygu arferion cydweithio a gweithdrefnau sicrhau ansawdd addas a chadarn ar gyfer cyrsiau partneriaeth.

Mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau effeithiol gyda'i hysgolion cynradd partner i wneud yn siŵr bod disgyblion yn elwa ar gyfnod pontio esmwyth o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae disgyblion yn ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7 ac mae'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael eu cynorthwyo'n dda wrth iddynt ymuno â'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau priodol gydag ystod o sefydliadau yn y gymuned. Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda rhieni. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gefnogwr gwerthfawr a buddiol i'r ysgol, ac mae'n ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau codi arian.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cymorth sydd â chymwysterau addas ac mae'n eu defnyddio'n briodol. Ceir trefniadau trefnus ar gyfer nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol staff. Mae pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn un o'r grwpiau addysgu niferus a sefydlwyd i weithio ar fentrau datblygiad allweddol. Mae'r grwpiau hyn yn dechrau cael effaith ar wella agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol fel llythrennedd a rhifedd. Defnyddiwyd cysylltiadau cynhyrchiol gydag ysgolion eraill a sefydliadau addysg uwch yn dda i ddatblygu arbenigedd staff ymhellach.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn deall costau rhedeg yr ysgol yn llawn ac maent yn monitro gwariant yn agos. Dyrennir cyllid i fodloni blaenoriaethau a nodwyd. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid ychwanegol, fel y grant amddifadedd disgyblion, yn briodol i gyflawni ei blaenoriaethau allweddol. Mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn gost effeithiol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda i sicrhau deilliannau da i'r disgyblion ac mae'n darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Mae wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion am y pum mlynedd hynny. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn golygu ei bod yn yr hanner uchaf am dair o'r pedair blynedd diwethaf. O gymharu â disgwyliadau wedi'u modelu, mae perfformiad ar gyfer 2013 uwchlaw'r disgwyliadau.

Mewn Saesneg, bu gwelliant mewn perfformiad ar lefel 5 ac yn uwch yn 2011 ond mae wedi gostwng bob blwyddyn ers hynny, gan symud yr ysgol o'r chwarter uchaf i'r hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae perfformiad yn 2013 uwchlaw cyfartaledd y teulu ac wedi bod felly am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 ac yn uwch wedi gwella mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae mathemateg wedi gwella ychydig dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 ac yn uwch, ac ar lefel 6 ac yn uwch, wedi gwella ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae uwchlaw cyfartaledd y teulu. Ar lefel 5 ac yn uwch a lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol ychydig uwchlaw disgwyliadau ar gyfer yr holl ddangosyddion, ac ymhell uwchlaw disgwyliadau mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi amrywio yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn 2013 ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, ar ôl bod yn y chwarter isaf yn 2012. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn 2013 ymhell uwchlaw disgwyliadau ar ôl bod ymhell islaw perfformiad disgwyliedig mewn dwy o'r tair blynedd blaenorol. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf hefyd ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn tair o'r blynedd hynny. Am y tair blynedd diwethaf, mae'r perfformiad hwn wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yn 2013, ac mae ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim ar ôl bod yn y chwarter isaf y flwyddyn flaenorol. Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn dangos gwelliant dros y pedair blynedd diwethaf ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer pob un o'r pedair blynedd hynny. Mae'r perfformiad hwn

uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu ac wedi bod felly am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn nangosydd lefel 1 wedi newid ychydig iawn dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n agos iawn at y cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, er bod yr ysgol yn parhau i fod yn yr hanner is o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae'r ysgol wedi bod yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim ddwywaith, ac unwaith yn y chwarter uchaf. Yn 2013, mae perfformiad wedi gwella. Mae'n gosod yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella'n sylweddol yn 2013, gan osod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar ôl bod yn yr hanner is am y tair blynedd blaenorol. Mae hefyd yn fwy na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf mewn pedair blynedd.

Yn 2013, mae cynnydd disgyblion o'r cyfnodau allweddol blaenorol gryn dipyn yn fwy na'r disgwyl ar gyfer trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg, trothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Fodd bynnag, mae cynnydd yn nhrothwy lefel 1 gryn dipyn yn is ac mae cynnydd disgyblion ymhell islaw disgwyliadau.

Yn 2013, gadawodd ychydig iawn o ddisgyblion yr ysgol heb gymhwyster ac roedd y gyfran yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae llawer o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed y dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, ac mae'r gyfran hon yn llai na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru.

Yn 2013, mae perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth islaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru ar gyfer trothwy lefel 3 ac mae wedi bod felly am y ddwy flynedd diwethaf. Yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio, mae myfyrwyr yn perfformio islaw cyfartaledd y teulu ac wedi gwneud hynny am y ddwy flynedd diwethaf ond maent uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn perfformio yn unol â disgwyliadau ar y cyfan.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2013, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn ar lefel 5 ac yn uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac yn genedlaethol. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar bob un o'r lefelau uwch mewn pynciau craidd ac eithrio lefel 7 ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer llawer o ddangosyddion. Yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg ac yn y dangosydd pwnc craidd, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi bod yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol am y pedair blynedd diwethaf. Mewn gwyddoniaeth, mae'r bwlch wedi bod ddwywaith yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol am y pedair blynedd diwethaf. Mewn gwyddoniaeth, mae'r bwlch wedi bod ddwywaith yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn asesiadau cyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn llafaredd a darllen wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf ond mae wedi aros uwchlaw cyfartaledd y teulu.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	195	119 61%	74 38%	1 1%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		43%	53%	3%	1%	
The school deals well with any bullying	194	61 31%	101 52%	30 15%	2 1%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		26%	58%	14%	2%	
I have someone to talk to if I am worried	195	89 46%	89 46%	16 8%	1 1%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		38%	52%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	195	31 16%	126 65%	35 18%	3 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	57%	17%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	192	69 36%	108 56%	14 7%	1 1%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	9%	2%	
I am doing well at school	194	57 29%	125 64%	10 5%	2 1%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	194	85 44%	97 50%	10 5%	2 1%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	194	39 20%	108 56%	43 22%	4 2%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	195	85 44%	96 49%	14 7%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	194	22 11%	145 75%	23 12%	4 2%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	27%	6%	

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
Staff treat all pupils fairly and with respect	193	61 32%	94 49%	31 16%	7 4%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
		29%	50%	17%	4%	
The school listens to our views and makes changes we suggest	193	31 16%	125 65%	33 17%	4 2%	Mae'r ysgol yn gwranddo ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
		16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	195	66 34%	118 61%	9 5%	2 1%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosaf fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
		34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	195	81 42%	102 52%	10 5%	2 1%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
		36%	54%	9%	1%	
The staff respect me and my background	195	80 41%	99 51%	13 7%	3 2%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
		37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	194	72 37%	112 58%	8 4%	2 1%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
		36%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	77	26 34%	30 39%	17 22%	4 5%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
		28%	52%	15%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	40	15 38%	20 50%	1 2%	4 10%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
		28%	50%	16%	6%	

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	295	178 60%	113 38%	3 1%	1 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		43%	50%	4%	1%		
My child likes this school.	296	189 64%	101 34%	5 2%	1 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		47%	48%	4%	1%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	296	167 56%	115 39%	10 3%	0 0%	4	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		49%	45%	3%	1%		
My child is making good progress at school.	292	151 52%	132 45%	5 2%	0 0%	4	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		45%	48%	4%	1%		
Pupils behave well in school.	291	103 35%	167 57%	5 2%	1 0%	15	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		22%	55%	11%	3%		
Teaching is good.	291	114 39%	165 57%	5 2%	1 0%	6	Mae'r addysgu yn dda.
		34%	57%	5%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	296	173 58%	114 39%	2 1%	0 0%	7	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
		51%	45%	2%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	292	112 38%	147 50%	15 5%	1 0%	17	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		31%	53%	8%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	292	105 36%	145 50%	17 6%	2 1%	23	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		32%	48%	9%	2%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	291	91 31%	156 54%	15 5%	0 0%	29	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		33%	53%	7%	1%		
My child is safe at school.	296	163 55%	127 43%	3 1%	0 0%	3	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		41%	52%	3%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	275	101 37%	113 41%	14 5%	2 1%	45	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		32%	46%	7%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	293	120 41%	148 51%	20 7%	2 1%	3	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		34%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	292	136 47%	130 45%	15 5%	2 1%	9	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	292	93 32%	131 45%	25 9%	1 0%	42	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	51%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	292	126 43%	141 48%	10 3%	2 1%	13	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb.
		36%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	278	74 27%	132 47%	18 6%	2 1%	52	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	291	91 31%	152 52%	31 11%	4 1%	13	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	50%	9%	2%		
The school is well run.	290	156 54%	124 43%	1 0%	1 0%	8	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	48%	5%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Anthony Sparks	Arolygydd Cofnodol
Karen Newby Jones	Arolygydd Tîm
Nigel Vaughan	Arolygydd Tîm
Mark Evans	Arolygydd Tîm
James Kerry Jones	Arolygydd Lleyg
Bethan Bale	Arolygydd Cymheiriaid
James Connelly	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---